

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Meddygol Gŵyr (Scurlage),
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 10 Gorffennaf 2025

Dyddiad cyhoeddi: 10 Hydref 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	12
	• Ansawdd Profiad y Claf	12
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	17
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	24
4.	Y camau nesaf	29
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith	32
	Atodiad C - Cynllun gwella	34

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Meddygol Gŵyr (Scurlage), Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 10 Gorffennaf 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd naw gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Canfu ein harolygiad fod Practis Meddygol Gŵyr (Scurlage) yn dangos ymrwymiad cryf i ofal urddasol, amserol a theg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn' neu'n 'dda' gan ganmol gwybodaeth, empathi a phroffesiynol y staff clinigol. Roedd y sylwadau'n adlewyrchu profiad cyson gadarnhaol, gyda'r cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u gwerthfawrogi. Fodd bynnag, nododd un claf fod diffyg cysylltiad rhwng ymgynghoriadau a chyfathrebu'r canlyniadau, gan ddynodi maes i'r practis fyfyrrio arno.

Roedd hybu iechyd yn y practis wedi'i ddatblygu'n arbennig o dda, gydag adnoddau cyfredol yn cael eu cynnig mewn fformatau amrywiol a thrwy sianeli amryfal. Roedd ymgyrch frechu'r gaeaf yn esiampl glir o gyfathrebu cynhwysol ac wedi'i strwythuro'n dda, wedi'i theilwra i anghenion cleifion sy'n defnyddio technolegau digidol neu nad ydynt yn defnyddio technolegau digidol.

Roedd dull gweithredu'r practis yn cefnogi'r cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd, sy'n gyson ag egwyddor gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd preifatrwydd ac urddas yn cael eu cynnal yn gyffredinol dda yn ystod ymgynghoriadau, gyda chymorth trefniadau corfforol priodol a pholisi hebryngwyr ysgrifenedig.

Roedd mynediad i ofal amserol yn gryfder arall, gyda sawl llwybr ar gael i gleifion ofyn am apwyntiadau a system brysennu effeithlon yn cael ei rheoli gan feddygon teulu. Roedd y practis yn cynnig digon o apwyntiadau, yn blaenoriaethu anghenion brys, ac yn gwneud ymdrech i ddarparu parhad gofal drwy drefnu i gleifion weld eu meddyg teulu arferol pan fo'n bosibl. Fodd bynnag, roedd elfennau o bolisi mynediad y practis yn cyfeirio at wasanaethau NHS England, y dylid ei ddiwygio i adlewyrchu'r cyd-destun cywir ar gyfer cleifion Cymru.

Roedd y practis hefyd yn dangos mynediad cryf iawn drwy ei strategaethau cyfathrebu cynhwysol a chyfleusterau hygyrch. Roedd ystod eang o fformatau ac adnoddau yn cefnogi'r cleifion ag anawsterau cyfathrebu, ac roedd y staff yn gyfarwydd â gwasanaethau cyfieithu. Fodd bynnag, byddai gweithredu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru yn fwy cyson yn cryfhau cyfathrebu dwyieithog, gan fod y rhan fwyaf o'r arwyddion yn uniaith Saesneg.

Roedd hawliau a chydraddoldeb yn cael eu cefnogi drwy fesurau ymarferol fel cynllun adeilad hygrych, mentrau yn y gweithle i hyrwyddo llesiant staff ac arferion parchus tuag at gleifion trawsryweddol. Serch hynny, rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn cynnal cofnodion cywir o gwblhau hyfforddiant.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau'r polisi mynediad i ddileu cyfeiriadau at wasanaethau NHS England a sicrhau cysondeb â system gofal iechyd Cymru
- Datblygu a gweithredu polisi llif gwaith ffurfiol ar gyfer rheoli gohebiaeth sy'n dod i mewn o ofal eilaidd, gyda chymorth proses archwilio i gynnal goruchwyliaeth a lleihau'r risg o golli camau gweithredu
- Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth gorfodol a bod cofnodion hyfforddiant yn cael eu cadw'n gyfredol er mwyn dangos cydymffurfiaeth a chefnogi arferion cynhwysol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn darparu rhaglen frechu'r gaeaf cydlynol a chynhwysol, gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu amrywiol i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o gleifion cymwys, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt dechnolegau digidol.
- Roedd yn cynnal ymrwymiad cryf i gyfathrebu hygrych drwy ddarparu gwybodaeth iechyd mewn ystod eang o fformatau ac ieithoedd, gan sicrhau mynediad teg i gleifion ag anghenion cyfathrebu amrywiol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y gofal diogel ac effeithiol oedd yn cael ei ddarparu ym Mhractis Meddygol Gŵyr (Scurlage) yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan, ond roedd angen gwella sawl maes er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau cenedlaethol ac i ddiogelu diogelwch cleifion a staff.

Roedd yr amgylchedd clinigol yn ddiogel gan mwyaf ac yn cael ei gynnal a chadw yn briodol, ond nododd ein harolygiad sawl mater yr oedd angen ymdrin â nhw. Roedd y rhain yn cynnwys llwch a gwe pry cop ym mhob rhan o'r practis, cyfarparu meddygol hen neu heb ei ddefnyddio a oedd wedi'i storio mewn ystafelloedd clinigol ac anghlinigol, a difrod dŵr amlwg mewn nenfwd yn un o'r coridorau. Mae'r

materion hynny, er nad ydynt yn uniongyrchol beryglus, yn cyflwyno risgiau i reoli heintiau a diogelwch cyffredinol.

Roedd presenoldeb cynwysyddion offer miniog yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio ac arferion storio gwastraff anghyson, gan gynnwys bin gwastraff clinigol nad oedd wedi'i gloi, yn tynnu sylw at ddiffygion mewn gweithdrefnau gwaredu diogel. Aed i'r afael â rhai ohonynt yn ystod yr arolygiad, ond rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod systemau cadarn ar waith i'w hatal rhag ailddigwydd.

Roedd y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn cydymffurfio'n rhannol. Er bod fframwaith polisi clir ac arweinyddiaeth atal a rheoli heintiau dynodedig ar gael, roedd rhai meysydd clinigol yn dal i gynnwys dodrefn wedi'i orchuddio â ffabrig a llawr wedi'i garpedu, ond roedd y ddau ohonynt yn groes i ganllawiau atal a rheoli heintiau arfer gorau. Yn ogystal, nid oedd yr amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau'n gyson ac nid oedd archwiliad atal a rheoli heintiau cyfredol ar gael. Er mwyn sicrhau y caiff heintiau eu rheoli'n effeithiol, rhaid i'r practis gynnal archwiliadau rheolaidd a mynd i'r afael â'r diffygion amgylcheddol hyn.

Roedd meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel ar y cyfan. Roedd y presgripsiynau a'r prosesau cadwyn oer ar gyfer brechlynnau yn cael eu trafod yn ofalus, ac roedd cyfarpar brys ar waith ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant mewn defnydd diogel o silindrau nwy meddygol integredig gan BOC, ac nid oedd y dyddiadau dod i ben ar feddyginiaethau brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Rhaid ymdrin â'r bylchau hyn er mwyn cynnal hygrededd galluoedd ymateb brys.

Roedd arferion diogelu yn cael eu cefnogi gan bolisiau cyfredol a gweithio amlasiantaethol, ond roedd angen gwelliannau. Nid oedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar y lefel briodol, ac nid oedd enw'r arweinydd dynodedig ar y polisi diogelu. Yn ogystal, roedd gwybodaeth a allai adnabod person wedi'i chynnwys yn amhriodol yng nghofnodion y cyfarfod diogelu. Rhaid cywiro'r pryderon hyn er mwyn cynnal safonau diogelu data a sicrhau gweithdrefnau diogelu effeithiol.

Roedd y practis yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal yn effeithiol drwy wneud penderfyniadau clinigol da, cydweithio fel tîm a thrwy ymgysylltu'n briodol â gwasanaethau allanol. Roedd cofnodion y cleifion yn glir ac yn cael eu cynnal yn dda, gyda thystiolaeth o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chodio priodol. Fodd bynnag, nid oedd cod llawn ar rai crynodebau ar ôl rhyddhau cleifion o'r ysbyty, ac nid oedd y meddyginiaethau wedi'u cysylltu â symptomau clinigol y claf bob amser. At hynny, nid oedd cydsyniad y cleifion na chynnig hebryngwr wedi'u dogfennu ar gofnodion o archwiliadau personol. Mae'n rhaid i hyn gael ei safoni ym mhob achos perthnasol.

Dangosodd y practis effeithlonrwydd drwy weithio amlddisgyblaethol cryf a thrwy integreiddio â gwasanaethau cymunedol lleol. Roedd mentrau iechyd ataliol, fel y Rhaglen Atal Diabetes a phresgripsiynau llesiant, yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi iechyd cleifion a lleihau derbyniadau diangen i'r ysbyty. Roedd llwybrau iechyd meddwl a chleifion agored i niwed yn cael eu cefnogi drwy fynediad rheolaidd i glinigwyr a grwpiau cymorth lleol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella mesurau atal a rheoli heintiau drwy newid dodrefn wedi'u gorchuddio â ffabrigau a lloriau wedi'u carpedu mewn ardaloedd clinigol, cwblhau archwiliadau atal a rheoli heintiau rheolaidd a sicrhau y caiff amserlenni glanhau eu dilyn yn gyson
- Cryfhau llywodraethu clinigol drwy sicrhau y caiff cydsyniad y cleifion a chynnig hebryngwr yn ystod archwiliadau personol eu dogfennu a'u bod yn gyson ym mhob cofnod.
- Gwella diogelwch a hyfforddiant y staff drwy sicrhau bod yr holl staff clinigol yn cael hyfforddiant diogelu a thrafod silindrau nwy meddygol priodol, a chynnal gwiriadau imiwnedd cyfredol ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed.
- Sicrhau cydymffurfiaeth lawn â phrotocolau rheoli gwastraff, gan gynnwys storio diogel a defnydd cywir o finiau offer miniog.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal gwaith amlddisgyblaethol cryf, gan gynnwys mynediad i glinigydd iechyd meddwl, cydweithredu â gwasanaethau cymunedol, a chymryd rhan mewn mentrau fel y Rhaglen Atal Diabetes, a oedd yn cefnogi gofal cyfannol ac ataliol i gleifion.
- Rhoddwyd polisi ymweld â'r cartref cadarn ar waith a oedd yn cynnwys asesiadau risg wedi'u strwythuro ar gyfer diogelwch cleifion a chlinigwyr, gan adlewyrchu dull rhagweithiol a meddylgar o ddarparu gofal y tu allan i leoliad y practis
- Sicrhwyd bod presgripsiynau'n cael eu trafod yn ddiogel a bod rheolaeth cadwyn oer effeithiol ar gyfer brechlynnau, gyda phrosesau wedi'u dogfennu'n glir a oedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithlon.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Canfu ein harolygiad fod Practis Meddygol Gŵyr (Scurlage) wedi manteisio ar arweinyddiaeth ymrwymedig a diwylliant gwaith cadarnhaol, gyda ffocws clir ar ofal i gleifion, cymorth staff a gwella gwasanaethau.

Roedd yr adborth i staff yn gadarnhaol gan mwyaf, gyda'r holl ymatebwyr yn dangos eu bod yn teimlo'n barod ar gyfer eu rolau, wedi'u grymuso i gyfrannu syniadau a'u cefnogi i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Disgrifiodd y staff amgylchedd gwaith cydlynol a dymunol, gyda chyfleoedd rheolaidd am ddatblygiad proffesiynol.

Roedd arweinwyr y practis yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt, a gwnaeth y tîm rheoli feithrin diwylliant cydweithredol yn y ddau bractis. Cafodd rolau a chyfrifoldebau'r staff eu diffinio'n glir, gyda chymorth dulliau cyfathrebu effeithiol fel cyfarfodydd tîm a llwyfannau negeseuon digidol. Roedd arweinwyr dynodedig ar waith ar gyfer meysydd allweddol, gan gynnwys diogelu, atal a rheoli heintiau, a nyrso, gan sicrhau bod gan y staff ganllawiau ac atebolrwydd clir.

Roedd y practis yn cymryd rhan mewn archwiliadau clinigol a gwella gwasanaethau, gan ddefnyddio adborth i gleifion a data archwilio i nodi tueddiadau a llywio dysgu. Roedd arloesiadau fel llwyfan digidol 'AskMyGP' a'r defnydd o adnoddau gweinyddol deallusrwydd artiffisial yn tynnu sylw at ddull blaengar o wella effeithlonrwydd a chyfathrebu â chleifion.

Roedd cyfranogiad mewn mentrau lefel system ehangach, gan gynnwys cyfarfodydd clwstwr ac adolygiadau rhagnodi, yn dangos ymrwymiad i ofal integredig.

Fodd bynnag, roedd angen gwella sawl maes llywodraethu a chysylltiedig â'r gweithlu. Gwnaeth ein hadolygiad o ffeiliau staff ddatgelu bod rhai dogfennau cyn cyflogaeth, gan gynnwys gwiriadau a chyfeiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ar goll neu yn anghyflawn. Yn ogystal, dangosodd y matrices hyfforddiant gydymffurfiaeth anghyson â hyfforddiant gorfodol ar draws staff clinigol a gweinyddol, gan gynnwys bylchau mewn hyfforddiant diogelu a Dyletswydd Gonestrwydd. Rhaid i'r practis roi system gadarn ar waith i fonitro a sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â hyfforddiant cyfredol.

Er bod gan y practis bolisi chwythu'r chwiban a bod y staff yn teimlo'n hyderus i fynegi pryderon, roedd angen gwella gwelededd y broses gwyno a 'Gweithio i Wella' ar gyfer cleifion o fewn amgylchedd y practis.

Canfuwyd bod y systemau llywodraethu gwybodaeth yn gadarn, gyda dull diogel o storio cofnodion a pholisïau priodol ar waith. Gwnaeth y practis hefyd ddangos ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth, cynnal cydberthnasau effeithiol â

phartneriaid y bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau cymunedol er mwyn cefnogi canlyniadau i gleifion a chydgyssylltu gofal ledled y system.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol a'u bod yn parhau i gydymffurfio ag ef, gan gynnwys hyfforddiant diogelu a Dyletswydd Gonestrwydd, a rhoi system ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn effeithiol
- Cryfhau gweithdrefnau recriwtio drwy sicrhau y caiff yr holl wiriadau cyn cyflogi angenrheidiol eu cwblhau a'u dogfennu, gan gynnwys tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geir daon i bob aelod o'r staff.
- Gwella gwelededd y broses gwyno a 'Gweithio i Wella' yn y practis i gefnogi ymwybyddiaeth a hygyrchedd y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Meithrin diwylliant gwaith cefnogol ac agored, lle roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i gyfrannu at welliannau ac roedd ganddynt fynediad i amrywiaeth o adnoddau llesiant, gan gynnwys rhaglenni cefnogi iechyd meddwl cenedlaethol.
- Cofleidio arloesedd gan ddefnyddio adnoddau digidol fel 'AskMyGP' a chymorth gweinyddol sy'n cael ei gymhell gan ddeallusrwydd artiffisial, gwella cyfathrebu â chleifion ac effeithlonrwydd gweithredol
- Gweithio mewn partneriaeth yn weithgar â darparwyr iechyd a gofal lleol, cyfrannu at ofal cydlynol, ledled y system a gwella canlyniadau i gleifion drwy lwybrau cydweithredol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cawsom adborth cadarnhaol gan mwyaf gan yr 13 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC. Nododd pob ymatebydd fod y gwasanaeth a ddarperir gan Bractis Meddygol Gŵyr (Scurlage) yn ‘dda iawn’ neu'n ‘dda’.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Gwasanaeth gwych ym mhob achos.”

“Gwasanaeth a chyngor rhagorol bob amser.”

“Mae'r [meddyg] yn llawn gwybodaeth, yn ofalgar ac yn gefnogol. Mae wedi bod yn anhygoel o addfwyn, caredig a sensitif gyda'm merched. Diolch.”

“Mae diffyg cysylltiad rhwng gweld meddyg a chael canlyniadau.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o ddeunyddiau hybu iechyd, gan gynnwys taflenni, gweithdai ac adnoddau digidol a oedd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol y boblogaeth leol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am anhwylderau cyffredin, ymgyrchoedd sgrinio, iechyd meddwl a chymorth i ofalwyr. Roedd y wybodaeth yn gyfredol ac o ansawdd da.

Roedd gwybodaeth am y practis ar gael ar wefan y practis ac mewn taflen a oedd yn cael ei dosbarthu i gleifion wrth gofrestru. Roedd gwefan y practis yn darparu gwybodaeth hygyrch a pherthnasol, gan gefnogi cleifion i wneud penderfyniadau gyfybodus am eu hiechyd a'u llesiant.

Roedd paratodau'r practis i reoli rhaglen frechu'r gaeaf yn addas ac roeddent yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a oedd yn cael eu defnyddio i hyrwyddo'r rhaglen a hysbysu cleifion cymwys, gan gynnwys llythyrau, negeseuon testun, y cyfryngau cymdeithasol, baner ar ap ‘AskMyGP’, a diweddariadau ar wefan y practis.

Canfuwyd bod y paratoadau ar gyfer y rhaglen wedi'u trefnu'n dda ac yn gynhwysol, gyda threfniadau priodol ar waith i gefnogi cleifion agored i niwed a'r rhai heb dechnolegau digidol.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd y drysau i'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cau pan oedd cleifion yn cael eu hadolygu, ac roedd gan yr ystafelloedd ymgynghori hefyd lenni preifatrwydd y gellid eu defnyddio pan oedd y cleifion yn dadwisgo neu'n cael eu harchwilio. Roedd pob un o'r ymatebwyr ond un a gwblhaodd yr holiadur i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, a bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas â defnyddio hebryngwyr ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol i hebryngwyr. Roedd hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth am hebryngwyr wedi'i arddangos yn yr ardaloedd aros. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y broses o gofnodi bod hebryngwr wedi cael ei gynnig a ph'un a wnaeth y claf dderbyn neu wrthod y cynnig hwn, ynghyd â manylion unrhyw hebryngwyr sy'n bresennol, bob amser yn cael ei nodi yng nghofnodion y cleifion.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses o gynnig hebryngwr a'r penderfyniad a wnaed gan y claf, ynghyd â manylion unrhyw hebryngwyr sy'n bresennol, yn cael ei nodi yng nghofnodion meddygol y cleifion, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Amserol

Gofal amserol

Roedd polisi mynediad cyfredol ar waith yn y practis a oedd yn nodi'n glir y trefniadau ar gyfer sicrhau y gallai cleifion gael gofal mewn modd amserol. Fodd bynnag, roedd y polisi yn cynnwys dolenni i wasanaethau a ddarperir gan NHS England, nad ydynt o bosib yn gymwys i gleifion yng Nghymru.

Rhaid i'r practis adolygu'r polisi i sicrhau bod pob gwasanaeth y cyfeirir ato yn briodol ar gyfer cyd-destun gofal iechyd Cymru.

Roedd y practis yn cynnig sawl llwybr i gleifion gael gofal, a oedd yn cynnwys cysylltu dros y ffôn, ceisiadau digidol trwy lwyfan 'AskMyGP' ac ymweliadau wyneb yn wyneb â desg y dderbynfa. Roedd pob cais am apwyntiad, ni waeth pa ddull

cysylltu a ddefnyddiwyd, yn cael ei frysbennu gan feddyg teulu, a oedd yn cadarnhau'r math o apwyntiad mwyaf priodol a'r amser mwyaf priodol.

Roedd modd i'r cleifion ofyn am ymgynghoriad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, ac roedd y dewisiadau hyn yn cael eu darparu ar eu cyfer fel arfer, onid oedd rheswm clinigol i gynghori fel arall. Dangosodd y practis ymrwymiad cryf i barhad gofal drwy anelu at ddyrannu cleifion i'w meddyg teulu arferol ble bynnag y bo'n bosibl. Roedd cleifion brys yn cael eu gweld ar yr un diwrnod, a chafodd y rhan fwyaf o achosion eu blaenoriaethu i gael eu gweld ar yr un diwrnod neu drannoeth.

Pan fydd system 'AskMyGP' yn cyrraedd ei chapasiti, bydd y practis yn parhau i dderbyn ceisiadau dros y ffôn, gan sicrhau na chaiff yr un claf ei adael heb fynediad i gyngor a chymorth brys. Roedd proses gyfeirio at wasanaethau eraill fel ffisiotherapi mynediad uniongyrchol, optometreg a fferylliaeth gymunedol ar waith hefyd. Dywedodd y practis fod llawer o apwyntiadau ar gael ac roedd o'r farn nad oedd cleifion heb dechnolegau digidol yn cael unrhyw rwystr i gael gafael ar apwyntiad.

Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth ymateb i'r holiadur eu bod yn gallu cysylltu â'u practis meddyg teulu pan oedd angen, a hynny dros y ffôn neu drwy'r system trefnu apwyntiadau ar-lein. Nododd yr holl ymatebwyr hefyd eu bod yn cael cynnig dewis o fath o apwyntiad — boed wyneb yn wyneb, drwy gyswllt fideo rhithwir neu dros y ffôn. O'r 13 o ymatebwyr, nododd 11 eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen gofal brys arnynt.

Gallai cleifion a oedd yn cael profiad o bryderon iechyd meddwl fynd i'r practis drwy'r un llwybrau â chleifion eraill - trwy 'AskMyGP', dros y ffôn neu mewn person. Roedd y practis yn gallu defnyddio gweithiwr cyswllt iechyd meddwl a oedd yn cefnogi'r gwaith o asesu a rheoli anghenion iechyd meddwl lefel is, wrth i achosion brys neu argyfwng gael eu hatgyfeirio at y tîm argyfwng.

Roedd un pwynt mynediad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer atgyfeiriadau at ofal eilaidd, gyda'r practis yn nodi amseroedd ymateb cyffredinol dda ar gyfer asesiadau brys. Ar y cyfan, dywedodd y practis eu bod yn cael cefnogaeth dda gan wasanaethau gofal eilaidd ac ni nodwyd materion arwyddocaol o ran mynediad i ofal iechyd meddwl.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dangosodd y practis ymrwymiad cryf i gyfathrebu hygyrch a chynhwysol. Roedd amrywiaeth o ddeunyddiau hybu iechyd ar gael yn yr ardal aros, a darparwyd dolenni i adnoddau ar-lein i gleifion newydd gefnogi eu hiechyd a'u llesiant.

Dyweddodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur fod rhybuddion ar gofnodion y cleifion i'w hysbysu am unrhyw anawsterau cyfathrebu posibl a allai fod ganddynt. Er mwyn diwallu anghenion cyfathrebu amrywiol, roedd y practis yn cynnig gwybodaeth i gleifion mewn sawl fformat, gan gynnwys braille, CD clywedol, Hawdd Ei Deall, print mawr a byrddau lluniau. Roedd dolen sain a chwyddwydr hefyd ar gael i gefnogi'r cleifion gydag amhariad ar y clyw neu amhariad ar y golwg.

Roedd y practis yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu - fel negeseuon testun, llythyrau, galwadau ffôn, gwefan y practis, a thudalen Facebook lleol i roi gwybod i gleifion am wasanaethau a diweddariadau pwysig. Cafodd baneri hefyd eu harddangos ar lwyfan 'AskMyGP' a gwefan y practis. Roedd hysbysfyrddau yn y feddygfa yn cael eu defnyddio i rannu negeseuon allweddol, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar gyfathrebu, gan gynnwys sesiynau hyfforddiant Paul Ridd.

Dyweddwyd wrthym nad oedd unrhyw aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn y practis, a bod rhai aelodau o'r staff yn cwblhau hyfforddiant Cymraeg. Fel rhan o fenter "cynnig rhagweithiol" Llywodraeth Cymru, dylai holl wybodaeth y practis a'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog. Gwelsom fod rhai arwyddion a phosteri ar gael yn Gymraeg, ond dim ond yn Saesneg yr oedd y rhan fwyaf ohonynt ar gael.

Er bod nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn gyfyngedig, ystyriwyd bod hyn yn briodol ar gyfer anghenion iaith y boblogaeth leol.

Dylai'r practis sicrhau bod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.

Dyweddodd y staff eu bod yn gallu diwallu anghenion iaith neu gyfathrebu hysbys a'u bod yn gyfarwydd â gwasanaethau cyfieithu megis y Llinell Iaith. Yn ogystal, roedd gwefan y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd prosesau ar waith yn y practis ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth a gafwyd gan wasanaethau gofal eilaidd. Roedd yr ohebiaeth a oedd yn dod i mewn, gan gynnwys llythyrau clinigol a chrynodebau rhyddhau cleifion o'r ysbyty, yn cael eu clustnodi i'r meddyg teulu priodol, a oedd yn edrych ar y cynnwys, yn rhoi cod wrth wybodaeth berthnasol ac yn nodi unrhyw gamau i'r staff gweinyddol eu cwblhau.

Rhoddodd y practis wybod mai'r amser nodweddiadol ar gyfer prosesu post oedd yn dod i mewn oedd 48 awr. Fodd bynnag, nid oedd polisi llif gwaith ffurfiol ar waith i arwain y gwaith o reoli'r wybodaeth hon yn gyson ac yn effeithiol. Byddai datblygiad polisi o'r fath o gymorth i sicrhau bod yr holl ohebiaeth yn cael ei thrafod mewn ffordd amserol a safonol, gan leihau'r risg o golli camau gweithredu neu godio anghyflawn.

Rhaid i'r practis roi polisi llif gwaith ar waith er mwyn darparu canllawiau clir i'r staff.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd y practis yn cynnig mynediad da i gleifion. Gwnaethom nodi bod yr holl ardaloedd i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Hefyd, roedd cadair olwyn ar gael yn y practis y gallai'r cleifion ei defnyddio os oedd angen. Gallai cleifion hefyd ofyn am gael ymweliad cartref pe bai cyrraedd y practis yn broblem.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ac a aeth i'r practis ar gyfer eu hapwyntiad fod yr adeilad yn hygyrch iawn, a bod digon o seddi yn yr ardal aros.

Gwelsom dystiolaeth bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith; fodd bynnag, nid oedd yn glir p'un a oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac y cedwir cofnodlyfr o'r hyfforddiant a gaiff ei gwblhau.

Mae'r practis wedi cyflwyno sawl menter yn y gweithle i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau hyblyg fel ymddeoliad graddol ac arferion dychwelyd i'r gwaith graddol. Er mwyn cydnabod effaith y menopos ar lesiant staff, roedd y practis hefyd wedi rhoi mesurau cefnogol ar waith fel darparu gwyntyllau oeri a mabwysiadu polisi gwisg hamddenol.

Roedd y practis yn cymryd camau rhagweithiol i barchu hawliau cleifion trawsryweddol. Dywedwyd wrthym fod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin mewn modd sensitif, a chadarnhawyd y byddai'r enwau a'r rhagenwau a ffefrir ganddynt bob amser yn cael eu defnyddio.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd amgylchedd y practis mewn cyflwr da ar y cyfan ac roedd i'w weld yn ddiogel i'r cleifion ac i'r staff. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom lwch a gwe pry cop yn y rhan fwyaf o ardaloedd yr adeilad.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y rhaglen lanhau a amserlennwyd yn cael ei chyflwyno yn unol â'r contract glanhau. Dylid dilyn yr amserlenni glanhau yn gyson, gan gynnal archwiliadau chwe misol rheolaidd er mwyn monitro a chynnal safonau glanhau.

Gwelsom fod rhai ystafelloedd yn cynnwys cyfarpar hen a heb ei ddefnyddio. Gall storio'r eitemau hynny mewn ardaloedd trin gyflwyno risg iechyd a diogelwch. Yn ogystal, roedd yr ystafell hyfforddi'n cynnwys gwerslyfrau meddygol a dogfennau gweithdrefnol wedi'u dyddio.

Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o'r holl ardaloedd clinigol ac anghlinigol er mwyn symud deunyddiau wedi'u dyddio a chyfarpar heb ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth o ddifrod dŵr ar y nenfwd yn y coridor gerllaw ardal y dderbynfa. Er y cawsom wybod bod ffynhonnell y gollyngiad wedi'i thrwsio, roedd staeniau a difrod i'w gweld o hyd.

Gwnaethom edrych ar gynllun parhad busnes y practis; fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys ystyriaeth o risgiau partneriaeth neu drefniadau amlinellol wrth gefn yn achos ymddeoliad meddyg teulu.

Rhaid i'r practis diweddarau'r cynllun parhad busnes i gynnwys cyfeiriad at risg i'r bartneriaeth, gan nodi'n benodol er bod un partner yn gadael, mae partner newydd eisoes wedi'i enwi.

Roedd polisi ymweld â'r cartref cyfredol ar waith yn y practis, a oedd yn amlinellu'n glir y gweithdrefnau ar gyfer brysennu a blaenoriaethu ceisiadau am ymweliadau â'r cartref. Yn bwysig, roedd hefyd yn gofyn am gwblhau asesiad risg cyn unrhyw ymweliad, a oedd yn ystyried diogelwch y claf a'r clinigydd. **Roedd hwn yn arfer canmoladwy.**

Roedd proses ar waith yn y practis ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am dderbyn rhybuddion diogelwch cleifion a'u dosbarthu i aelodau perthnasol o'r staff. Er bod y system hon yn gweithredu'n effeithiol, roedd y cyfrifoldeb yn aros gydag un unigolyn ar hyn o bryd. Er mwyn cryfhau cadernid a sicrhau parhad yn absenoldeb rheolwr y practis, cynghorwyd bod ail aelod o'r staff yn cael ei enwebu i gefnogi'r swyddogaeth hon.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd gan y practis arweinydd atal a rheoli heintiau penodedig, ac roedd y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth gynnal safonau atal a rheoli heintiau, gan gydnabod bod atal a rheoli heintiau yn gyfrifoldeb i bawb. Roedd polisi atal a rheoli heintiau penodol i'r safle ar waith ac ar gael yn ystafell y nyrsys, ochr yn ochr â pholisi feirysau a gludir yn y gwaed cyfredol. Roedd y staff yn edrych ar ganllawiau atal a rheoli heintiau cyfredol drwy lwyfannau addysg ar-lein a diweddariadau e-bost.

Yn ystod ein harolygiad, gwelwyd radio cludadwy ar y llawr yn y coridor y tu allan i ystafell y nyrsys, a nodwyd ei fod yn llychlyd ac yn berygl baglu posibl. Ymdriniwyd â'n pryder mewn perthynas â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Roedd sinciau gyda thapiau a gaiff eu gweithredu gan ddefnyddio penelin, cynhyrchion hylendid dwylo a biniau a gaiff eu gweithredu â'r droed yn y rhan fwyaf o ystafelloedd clinigol. Fodd bynnag, roedd rhai ystafelloedd yn cynnwys llenni ffabrig, clustogau a chadeiriau nad oedd modd eu sychu, nad oeddent yn cyrraedd safonau arfer gorau o ran atal a rheoli heintiau. Yn ogystal, er bod lloriau finyl wedi'u gosod yn y rhan fwyaf o ardaloedd clinigol, roedd carpedi mewn rhai ystafelloedd ymgynghori o hyd, a oedd yn cael eu defnyddio o bosibl, ac roedd hyn yn torri arferion gorau atal a rheoli heintiau.

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Bod clustogau a chadeiriau wedi'u gorchuddio â ffabrig mewn ardaloedd clinigol yn cael eu newid o fewn amserlen resymol**
- **Bod llenni ffabrig yn cael eu glanhau'n rheolaidd yn unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau cyfredol neu ystyried trawsnewid i ddewisiadau defnydd untro er mwyn cefnogi gwaith rheoli heintiau effeithiol. Caiff dogfennaeth glir ei chynnal i ddangos amllder a dyddiadau newid llenni neu olchi llenni.**

- Maent yn parhau i liniaru'r risgiau atal a rheoli heintiau sy'n gysylltiedig â lloriau wedi'u carpedu a pharhau â'r rhaglen newid carpedi ar gyfer ardaloedd y cleifion.

Nid oedd y practis yn defnyddio offerynnau meddygol aml dro ac felly nid oedd angen polisi sterileiddio arno. Roedd yr amserlenni glanhau yn cael eu harddangos ar gefn drysau ond nid oeddent yn cael eu cwblhau'n gyson. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd archwiliad Atal a Rheoli Heintiau wedi'i gwblhau ar gael i'w weld. Darparwyd hyn ar ôl yr arolygiad.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom flychau offer miniog yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio. Dylid gwaredu blychau offer miniog pan fyddant yn ddi chwarter llawn neu ar ôl tri mis er mwyn lleihau'r risg o anaf neu groes-halogi.

Ymdriniwyd â'n pryder mewn perthynas â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Roedd gweithdrefnau rheoli gwastraff priodol ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys y defnydd o gynwysyddion offer miniog, biniau gwastraff clinigol a chyfleusterau ailgylchu. Fodd bynnag, nid oedd pob bin offer miniog wedi'i lofnodi a'i ddyddio fel y bo'n ofynnol.

Roedd gwastraff clinigol, gan gynnwys eitemau miniog, yn cael eu gwahanu'n briodol a'u storio mewn biniau priodol. Nid oedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel i ffwrdd o ardaloedd hygyrch i'r cyhoedd. Canfuwyd bod gan un bin fecanwaith clo diffygiol.

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Caiff dyddiadau dod i ben biniau offer miniog eu gwirio a'u dyddio ym mhob ystafell yn rheolaidd
- Caiff gwastraff clinigol ei storio'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys symud biniau i ardal ddiogel, sicrhau bod mecanwaith cloi gweithredol yn cael ei ffitio ar bob cynhwysydd gwastraff, a chwblhau gwiriadau rheolaidd er mwyn cynnal cydymffurfiaeth.
- Rhaid symud y bin nad oedd wedi'i gloi o'r safle fel na ellir ei ddefnyddio mwyach
- Cwblhaodd y staff a'r timau glanhau hyfforddiant gloywi ar ymdrin â gwastraff clinigol yn gywir a'r gofynion storio diogel.

Cadarnhaodd adolygiad o gofnodion y staff fod samplau o waed wedi'u cymryd gan rai aelodau o'r staff i brofi am imiwnedd yn erbyn Hepatitis B cyn yr arolygiad, a'u bod yn aros am ganlyniadau gan Adran Iechyd Galwedigaethol y Bwrdd Iechyd. Roedd aelodau o staff eraill wedi dogfennu tystiolaeth o imiwnedd, tra nad oedd cofnodion o brofion ar gael ar gyfer nifer o aelodau o'r staff.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau imiwnedd cyfredol ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff a all wynebu risg o ddod i gysylltiad â feirysau a gludir yn y gwaed, fel Hepatitis B. Mae hyn yn cynnwys cadarnhau canlyniadau ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu profi, trefnu profion ar gyfer staff nad oes ganddynt gofnodion, a chynnal dogfennaeth glir o'u statws imiweiddio.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel. Roedd y broses i gleifion wneud cais am feddyginiaeth reolaidd yn glir. Gellir casglu presgripsiynau o ddesg y dderbynfa hefyd. Roedd enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r unigolyn yn cael eu gwirio, a chofnod yn cael ei gadw. **Roedd hwn yn arfer canmoladwy.**

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo. Disgrifiodd y staff y broses a oedd ar waith i gael gwared ar badiau presgripsiwn yn ddiogel pan oedd meddyg teulu yn gadael y practis.

Roedd proses cadwyn oer ar waith ar gyfer meddyginiaethau neu frechlynnau yr oedd angen eu cadw yn yr oergell. Roedd dwy oergell glinigol ddynodedig ar gyfer eitemau penodol, megis brechlynnau. Roedd gwiriadau yn cael eu cwblhau o'r tymheredd bob dydd, ac roedd y ddogfennaeth a welsom yn cadarnhau hyn.

Roedd yr holl gyfarpar brys angenrheidiol ar waith. Roedd diffibriliwr allanol awtomataidd ar gael ac wedi'i wefru'n llawn. Roedd hysbysiad yn y dderbynfa a oedd yn nodi lleoliad y cyfarpar brys. Roedd staff y practis wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol priodol.

Roedd cyfarpar adfywio a chyffuriau brys priodol ar gael i reoli argyfwng yn ymwneud â chlaf, megis ataliad y galon. Gwelsom dystiolaeth bod y broses o wirio cyfarpar a chyffuriau brys yn cael ei chofnodi. Fodd bynnag, nid oedd dyddiadau dod i ben y meddyginiaethu brys wedi'u dogfennu fel rhan o'r gwiriadau hyn, a all gyfyngu ar effeithiolrwydd y broses o sicrhau bod y meddyginiaethau yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff dyddiadau dod i ben ar gyffuriau brys eu cofnodi yn ystod gwiriadau wythnosol.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod y practis yn defnyddio silindrau nwy meddygol integredig BOC. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar drin a defnyddio'r cyfarpar hwn yn ddiogel.

Rhaid i'r practis sicrhau bod hyfforddiant silindr nwy meddygol integredig BOC yn cael ei gwblhau gan staff clinigol.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu cyfredol, nad oeddent yn cynnwys manylion cyswllt yr arweinydd dynodedig ar gael i'r staff. Nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar y lefel ofynnol.

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu i'r lefel ofynnol**
- **Bod y polisi diogelu yn cynnwys enw'r arweinydd dynodedig.**

Nodwyd gennym fod cofnodion y cyfarfod diogelu yn cynnwys enw llawn claf.

Rhaid i'r practis sicrhau bod dynodydd unigryw neu gyfeiriad dienw yn cymryd lle gwybodaeth y gellir adnabod rhywun ohoni.

Roedd polisi ar waith yn y practis i reoli plant ac oedolion agored i niwed nad oeddent yn dod i'w hapwyntiadau (polisi 'was not brought'). Roedd y polisi yn cynnwys arweiniad ar y broses i'w dilyn pan oedd plant neu oedolion agored i niwed yn colli eu hapwyntiadau. Dywedwyd wrthym fod staff yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol i drafod pryderon diogelu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd prosesau ar waith yn y practis i gynnal a chadw cyfarpar yn ddiogel. Gwelsom fod yr holl gyfarpar mewn cyflwr da, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod gwiriadau trydanol priodol wedi cael eu cynnal. Roedd contractau ar waith ar gyfer cynnal a chadw a chalibradu cyfarpar fel y bo'n briodol. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi bod ambell i ddarn o gyfarpar archwilio meddygol wedi'i ddyddio wedi'i storio mewn cwpwrdd.

Rhaid cynnal adolygiad o'r holl ardaloedd clinigol ac anghlinigol er mwyn symud deunyddiau wedi'u dyddio a chyfarpar heb ei ddefnyddio.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod prosesau da ar waith i gefnogi triniaeth a gofal effeithiol i gleifion. Gwelsom enghreifftiau o reoli salwch aciwt a chronig, a naratif clir â thystiolaeth o brosesau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf. Roedd hyn yn cynnwys gwaith tîm amlddisgyblaethol a'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â chlinigwyr ac asiantaethau allanol. Roedd arweinwyr dynodedig ar waith ar gyfer meysydd allweddol fel diogelu, atal a rheoli heintiau, cwynion a nyrsio, a oedd yn sicrhau bod gan y staff ganllawiau a chymorth priodol.

Roedd system briodol ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau ac roedd unrhyw wersi i'w dysgu yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfodydd tîm.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion electronig deg claf, a oedd yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod drwy gyfrinair. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall.

Roedd codau Read yn cael eu defnyddio'n briodol a gwelsom enghreifftiau da lle roedd y rhesymau dros beidio â pharhau â meddyginiaeth wedi'u nodi yng nghofnod meddyginiaeth y claf. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau lle nad oedd meddyginiaeth bob amser yn gysylltiedig â phroblem/ cyflwyniad y claf yn ei gofnodion.

Rhaid i'r practis sicrhau bod meddyginiaeth yn gysylltiedig â phroblem/ cyflwyniad y cleifion yn y cofnodion mewn modd priodol.

Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd cyflyrau meddygol newydd a oedd wedi'u rhestru mewn crynodebau rhyddhau cleifion a oedd yn cyrraedd y practis wedi'u codio yn eu cofnod.

Rhaid i'r practis adolygu ei brosesau ar gyfer ymdrin â chrynodebau rhyddhau cleifion a oedd yn cyrraedd y practis i sicrhau bod cyflyrau meddygol newydd yn cael eu nodi'n gyson a'u codio mewn modd priodol yng nghofnodion y cleifion.

Gwelsom fod cofnodion cleifion newydd yn cael eu crynhoi gan staff gweinyddol anghlinigol, gyda hapwiriadau achlysurol yn cael eu cynnal i asesu ansawdd y gwaith crynhoi.

Mewn tri o'r cofnodion i gleifion y gwnaethom edrych arnynt, roedd archwiliad personol wedi'i gynnal. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r cofnodion hyn yn cynnwys dogfennaeth o gydsyniad y claf i'r archwiliad. Yn ogystal, gwelsom mai dim ond mewn un o'r tri achos yr oedd cofnod bod hebryngwr wedi'i gynnig; yn y ddau achos oedd yn weddill, nid oedd cofnod bod hebryngwr wedi'i gynnig.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cydsyniad i archwiliadau personol gael ei ddogfennu'n glir yng nghofnod y claf. Rhaid sicrhau y caiff hebryngwr ei gynnig ym mhob achos priodol, gan gofnodi'r cynnig, ymateb y claf, ac enw'r hebryngwr (os oes un yn bresennol) yn glir yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Effeithlon

Effeithlon

Dangosodd y practis waith amlddisgyblaethol effeithiol a defnydd rhagweithiol o adnoddau cymunedol er mwyn cefnogi cleifion a lleihau'r risg o dderbyniadau ysbyty y gellir eu hosgoi. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys cymryd rhan yn y Rhaglen Atal Diabetes, cysylltu'n rheolaidd ag ymwelwyr iechyd a bydwagedd, a phresenoldeb clinigydd iechyd meddwl un diwrnod yr wythnos yn y feddygfa.

Roedd hefyd angen mynediad da i grwpiau cymorth lleol ar gyfer cleifion ag anghenion iechyd meddwl a'r rhai yr ystyriwyd eu bod yn agored i niwed. Yn ogystal, gwelwyd mentrau ledled y clwstwr yn cael eu defnyddio, gan gynnwys presgripsiynau Llesiant Clwstwr y Bae, a oedd yn hyrwyddo'r broses o atal, hunanofal a llesiant cyffredinol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Cawsom adborth gan naw aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol gan mwyaf, gyda phob aelod o'r staff yn dweud wrthym eu bod yn teimlo bod y cleifion yn cymryd rhan mewn penderfyniadau gofal ac yn cael gofal amserol, a'u bod yn cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn teimlo'u bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella arferion.

Dywedodd un aelod o'r staff:

“Rwyf wedi gweithio yma ers nifer o flynyddoedd. Mae wedi bod ac yn parhau i fod yn amgylchedd gwaith dymunol sy'n gweithio'n galed dros ben i ddarparu gofal arfer gorau. Mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer DPP er mwyn sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau sy'n newid yn gyson.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom fod y staff a'r rheolwyr yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau, eu llinellau adrodd, a'u bod yn deall pwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd yr arweinwyr yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt yn y ddau safle, gyda'r tîm arwain wedi'i leoli'n bennaf yn y practis yn Scurlage ac yn mynd i'r practis ym Mhennard un prynhawn yr wythnos. Roedd y staff yn newid ar draws y ddau safle, gan gefnogi diwylliant tîm cyson a chydlynol.

Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal, gan gynnwys cyfarfodydd clinigol a gweithredol misol a chyfarfodydd nyrsio bob pedwar i chwe mis. Roedd cofnodion cyfarfodydd clinigol ar gael, ac roedd y staff yn cael eu hannog i gyfrannu at yr agendâu.

Roedd gwybodaeth, gan gynnwys diweddariadau i bolisiâu a gweithdrefnau, yn cael eu rhannu drwy amrywiaeth o sianeli fel e-bost, sgysiau uniongyrchol a grŵp WhatsApp (ar gyfer materion nad ydynt yn gysylltiedig â chleifion). Roedd grŵp nyrsys dynodedig hefyd yn cefnogi cyfathrebu yn y tîm nyrsio.

Roedd modd i'r staff gael cymorth llesiant drwy raglenni fel Silvercloud (drwy'r bwrdd iechyd), Canopi, a darparwr ymwybyddiaeth iechyd meddwl REACT. Cyfrannodd yr adnoddau hyn at amgylchedd gwaith cefnogol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau yn ystod yr arolygiad. Roedd gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymddangos yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i'r cleifion.

Roedd polisïau a gweithdrefnau recriwtio priodol ar waith a oedd yn disgrifio'r gwiriadau cyn cyflogi gofynnol ar gyfer unrhyw aelod newydd o staff. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n briodol i'w rôl. Fodd bynnag, wrth edrych ar ffeiliau personél y staff, ni welsom dystiolaeth i ddangos bod gan dri aelod o'r staff dystysgrifau addas gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd na gwiriadau statws blynyddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Yn ogystal, nid oedd geirdaon ar gael ar ffeil tri aelod o'r staff.

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Bod y polisi recriwtio yn cael ei ddilyn
- Bod y gwiriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff a bod tystiolaeth o hyn yn y ffeil
- Ei bod yn ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau ardystiad blynyddol ysgrifenedig i gadarnhau nad oes unrhyw newid a fyddai'n effeithio ar ei statws DBS
- Bod dogfennaeth berthnasol, fel geirdaon ysgrifenedig yn cael eu ceisio ar gyfer aelodau newydd o staff a'u cadw ar ffeil.

At hynny, yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ofyn hefyd am gael gweld cofnodion hyfforddiant y staff clinigol a'r staff gweinyddol a oedd yn gweithio yn y practis. Rhoddwyd matrices hyfforddiant i ni a oedd yn nodi cydymffurfiaeth wael â hyfforddiant gorfodol ymhlith pob grŵp staff. Mae rhai o'r bylchau mewn hyfforddiant hyn eisoes wedi'u crybwyll yn yr adroddiad hwn.

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau ac yn parhau i gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'w rolau, er mwyn cynnal diogelwch y cleifion, y staff a'u hymwelwyr.

- **Rhoi prosesau llywodraethu goruchwyllo cadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff yn barhaus a nodi'n brydlon pan fydd angen diweddariadau.**

Rhodddwyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i fynegi pryder pe bai angen a chawsom gopi o bolisi chwythu'r chwiban y practis.

Cadarnhaodd y canlyniadau o holiadur AGIC fod yr holl staff yn cytuno bod y practis yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau a bod cymysgedd sgiliau priodol yn y lleoliad.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y practis yn dangos diwylliant cadarnhaol ac agored, lle roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i fynegi pryderon, rhannu syniadau a chyfrannu at wella'r gwasanaeth.

Roedd gan y practis broses gwyno gynhwysfawr ar waith. Roedd gweithdrefn gwyno a pholisi cwyno a oedd yn gyson â phroses 'Gweithio i Wella' GIG Cymru, ond nid oedd gwybodaeth am y broses gwyno yn cael ei harddangos yn amlwg yn y practis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses gwyno a 'Gweithio i Wella' yn cael ei harddangos yn amlwg yn y practis i gefnogi ymwybyddiaeth y cleifion.

Roedd staff penodedig yn y practis a oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion. Cafwyd adborth drwy'r dderbynfa, ap 'AskMyGP' a gwefan y practis. Caiff cwynion a phryderon eu monitro er mwyn nodi unrhyw themâu a thueddiadau, a chaiff unrhyw gamau gweithredu er mwyn gwella eu rhannu â'r staff.

Croesawyd adborth gan gleifion a gweithredwyd ar yr adborth hwnnw, gyda phoster 'Dywedoch chi; Gwnaethom ni' yn cael ei arddangos yn y dderbynfa i ddangos ymatebolrwydd. Trafodwyd gwersi o gwynion ac adborth yn ystod y cyfarfodydd clinigol, ac anogwyd y cleifion i gyflwyno cwynion yn ysgrifenedig er mwyn gefnogi adolygiad ffurfiol.

Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig. Gwnaethom argymhell y dylid ymgymryd â hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel y'u nodir yng Nghanllawiau Statudol y Dyletswydd Gonestrwydd 2023.

Roedd canlyniadau arolwg staff AGIC yn dangos bod pob aelod o'r staff yn cytuno eu bod yn gyfarwydd â'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall; roeddent yn deall eu rôl o ran cyrraedd y safonau a chawsant eu hannog i godi pryderon pan fyddai rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn â'r claf.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod data, atgyfeiriadau a cheisiadau cleifion yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi'n effeithiol. Gwelwyd bod yr holl gofnodion cleifion electronig a phapur yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn. Roedd proses y practis ar gyfer trin data cleifion ar gael ar y wefan.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn dangos ymrwymiad i ddysgu a gwella'n barhaus drwy gyfarfodydd clinigol rheolaidd, lle roedd cwynion a phryderon yn ymwneud â materion clinigol yn cael eu trafod. Roedd y themâu a oedd yn codi o adborth yn cael eu rhannu â'r staff drwy gofnodion cyfarfodydd a chyfathrebiadau e-bost, gan gefnogi diwylliant o ddysgu ar y cyd.

Roedd dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau yn amlwg. Roedd y practis yn defnyddio llwyfan 'AskMyGP' i symleiddio cyfathrebu â chleifion a chyflwyno gwybodaeth iechyd rhagosodedig. Yn ogystal, darparwyd deunyddiau gwirio iechyd newydd i annog y cleifion i gwblhau holiaduron newydd.

Gwnaeth y practis hefyd archwilio datrysiadau cymorth gweinyddol arloesol, fel y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial "Heidi" i helpu gyda thasgau ysgrifenyddol.

Roedd tystiolaeth o atebolrwydd clir ar gyfer safonau'r gwasanaeth a gwella, gyda chymorth archwiliadau rheolaidd, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriadau, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) ac ymyriadau rheoli pwysau.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dangosodd y practis ddealltwriaeth glir o'i rôl o fewn y system gofal iechyd ehangach a rhoddodd ystyriaeth i oblygiadau ei gamau gweithredu ar wasanaethau eraill. Dilynodd y staff lwybrau'r bwrdd iechyd a monitrodd batrymau atgyfeirio i gefnogi effeithlonrwydd y system a'r canlyniadau i gleifion.

Cymerodd y practis ran weithgar gyda phartneriaid y system drwy bresenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd clwstwr, rhagnodi adolygiadau dangosyddion a fforymau rheolwyr practis.

Cafodd cydberthnasau cydweithredol eu cynnal gydag amrywiaeth o bartneriaid allanol, gan gynnwys y bwrdd iechyd, darparwyr gofal sylfaenol eraill a chydweithwyr y clwstwr. Helpodd y partneriaethau hyn i feithrin dealltwriaeth a rennir o anghenion y boblogaeth a chefnogodd y gwaith o ddarparu gofal ymatebol cydlynol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod blychau offer miniog yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio a'u bod dros dri chwarter llawn.	Dylid gwaredu blychau offer miniog pan fyddant yn dri chwarter llawn neu ar ôl tri mis er mwyn lleihau'r risg o anaf neu groes-halogi. Gall defnyddio cynhwysydd offer miniog y tu hwnt i'w ddyddiad dod i ben effeithio ar ei hygrededd a'i ddiogelwch strwythurol. Gall y deunyddiau ddirywio dros amser, gan gynyddu'r tebygolrwydd o graciau, cynnwys yn	Cafodd hyn ei godi gyda Rheolwr y Practis	Cafodd cynwysyddion offer miniog gorllawn neu yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio, eu symud.

	gollwng neu fecanwaith y clo ar y caead yn methu. Mae'r dirywiad hwn yn peri risg uwch o anaf neu groes-halogi.		
Gwelwyd radio cludadwy ar y llawr yn y coridor y tu allan i ystafell y nyrsys, a nodwyd ei fod yn llychlyd.	Mae croniad o lwch yn awgrymu efallai nad yw'r ardal neu'r eitem yn cael ei chynnwys mewn amserlenni glanhau rheolaidd, sy'n dangos diffygion mewn hylendid amgylcheddol. Gallai'r radio beri perygl o faglu, yn enwedig mewn argyfwng neu ar gyfer unigolion â phroblemau symudedd. Gall rwystro mynedfeydd neu allanfeydd, sy'n bryder o ran y rheoliadau diogelwch tân.	Cafodd hyn ei godi gyda Rheolwr y Practis	Symudwyd y radio yn ystod yr arolygiad.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Meddygol Gŵyr (Scurlage)

Dyddiad yr arolygiad: 10 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch.					
2.					
3.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Meddygol Gŵyr (Scurlage)

Dyddiad yr arolygiad: 10 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd y broses o gofnodi bod hebryngwr wedi cael ei gynnig a ph'un a wnaeth y claf dderbyn neu wrthod y cynnig hwn, ynghyd â manylion unrhyw hebryngwyr sy'n bresennol, bob amser yn cael ei nodi yng nghofnodion y cleifion.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses o gynnig hebryngwr a'r penderfyniad a wnaed gan y claf, ynghyd â manylion unrhyw hebryngwyr sy'n bresennol, yn cael ei nodi yng nghofnodion meddygol y cleifion, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Gwybodaeth	Mae'r eitem wedi'i thrafod mewn cyfarfod clinigol a bydd yn parhau i fod yn eitem sefydlog er mwyn atgoffa pob clinigydd. Gwnaed cyfeiriad penodol ym mhhecynnau sefydlu'r Meddygon Locwm a Chofrestryddion am yr angen i godio cynigion hebryngwr/derbyn a chydsyniad. Mae	Bydd Rheolwr y Practis yn goruchwyllo hyn ond bydd cyfrifoldeb ar bob clinigydd.	Archwiliad ymhen 3 mis

				bysellau brys wedi'u gosod yn Vision er mwyn gwneud y broses o gofnodi codau yn hawdd. Bydd y lefelau cofnodi presennol yn cael eu sefydlu a bydd chwiliadau'n cael eu cynnal ymhen 3 mis i archwilio'r broses.		
2.	Roedd y polisi Mynediad yn cynnwys dolenni i wasanaethau a ddarperir gan NHS England, nad ydynt o bosibl yn gymwys i gleifion yng Nghymru.	Rhaid i'r practis adolygu'r polisi i sicrhau bod pob gwasanaeth y cyfeirir ato yn briodol ar gyfer cyd-destun gofal iechyd Cymru.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Amserol	Adolygwyd y Polisi Mynediad a thynnwyd y dolenni i NHS England allan a gwiriwyd y dolenni i GIG Cymru.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
3.	Fel rhan o'r "cynnig rhagweithiol" ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg, dylai holl wybodaeth y practis	Dylai'r practis sicrhau bod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Gwybodaeth.	Er bod y feddygfa wedi ceisio cefnogi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, gall weld y gellir	Rheolwr y Practis	Cyfarfod cyntaf ymhen mis ac yna'n barhaus.

	a'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog. Gwelsom fod rhai arwyddion a phosteri ar gael yn Gymraeg, ond dim ond yn Saesneg yr oedd y rhan fwyaf ohonynt ar gael.			gwneud gwelliannau. Gan ddefnyddio grwpiau Facebook lleol, anfonwyd negeseuon at gleifion i ofyn am eu cymorth i sefydlu grŵp adborth i gleifion sy'n siarad Cymraeg a allai gynghori'r Feddygfa ar sut i wella'r agwedd hon.		
4.	Nid oedd polisi llif gwaith ffurfiol ar waith i arwain y gwaith o reoli'r wybodaeth sy'n dod i mewn yn gyson ac yn effeithiol.	Rhaid i'r practis roi polisi llif gwaith ar waith er mwyn darparu canllawiau clir i'r staff.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal) - Amserol; Teg; Effeithlon; Gwybodaeth	Mae polisi ar waith a fydd yn cael ei adolygu gan bob aelod o'r staff i sicrhau ei fod yn adlewyrchu prosesau cyfredol yn gywir ac yn sicrhau y caiff pob elfen ei chynnwys.	Rheolwr y Practis	Bydd y polisi ar waith erbyn canol mis Medi ac yn cael ei archwilio ganol mis Rhagfyr.
5.	Gwnaethom adolygu hyfforddiant gorfodol pum aelod o'r staff a nodwyd	Rhaid i'r practis wneud y canlynol: • Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau ac yn parhau i	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel; Y	Mae taenlen o hyfforddiant pob aelod o'r staff yn bodoli gyda system	Rheolwr y Practis	Bydd y lefelau cydymffurfiaeth yn cael eu hadolygu bob

gennym fod materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth ar gyfer pob un.	gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'w rolau, er mwyn cynnal diogelwch y cleifion, y staff a'u hymwelwyr • Rhoi prosesau llywodraethu goruchwyllo cadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff yn barhaus a nodi'n brydlon pan fydd angen diweddariadau.	Gweithlu; Gwybodaeth	goleuadau traffig i rybuddio pan fydd angen ei ail-ddilysu. Caiff hon ei gwirio'n fisol gan y Rheolwr Gweinyddiaeth Glinigol a fydd yn rhoi gwybod i'r staff. Mae hyfforddiant gorfodol wedi'i flaenoriaethu dros y flwyddyn ddiwethaf gan wneud ymdrech i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio. Mae 'shifft fel y bo angen' wedi'i dyrannu i aelod newydd o'r staff a fydd yn golygu bod modd rhoi amser i staff gwblhau eu hyfforddiant. Mae pob aelod o'r staff bellach yn llwyr werthfawrogi pwysigrwydd yr hyfforddiant hwn.		pythefnos. Cydymffurfiaeth lawn ymhen tri mis.
--	---	-------------------------	---	--	--

6.	Gwelsom lwch a gwe pry cop yn y rhan fwyaf o ardaloedd yr adeilad.	Rhaid i'r practis herio darparwr y gwasanaeth glanhau er mwyn sicrhau bod y rhaglen lanhau a amserlennwyd yn cael ei darparu yn unol â'r contract glanhau. Dylid dilyn yr amserlenni glanhau yn gyson, gan gynnal archwiliadau chwe misol rheolaidd er mwyn monitro a chynnal safonau glanhau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal) - Diogel		Rheolwr y Practis	
7.	Roedd rhai ystafelloedd yn cynnwys cyfarpar hen a heb ei ddefnyddio. Gall storio'r eitemau hynny mewn ardaloedd trin gyflwyno risg iechyd a diogelwch. Roedd yr ystafell hyfforddi'n cynnwys gwerslyfrau meddygol a dogfennau	Rhaid cynnal adolygiad o'r holl ardaloedd clinigol ac anghlinigol er mwyn symud deunyddiau wedi'u dyddio a chyfarpar heb ei ddefnyddio.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal) - Diogel		Rheolwr y Practis	

	gweithdrefnol wedi'u dyddio.					
8.	Nid oedd y cynllun parhad busnes yn cynnwys ystyriaeth o risgiau partneriaeth neu drefniadau amlinellol wrth gefn yn achos ymddeoliad meddyg teulu.	Dylai'r practis ddiweddarau'r cynllun parhad busnes i gynnwys cyfeiriad at risg i'r bartneriaeth, gan nodi'n benodol er bod un partner yn gadael, mae partner newydd eisoes wedi'i enwi.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Gwybodaeth; Diogel	Mae hwn bellach wedi'i addasu, a chaiff copi o'r cytundeb Partneriaeth bellach ei gadw gyda chopi o gynllun wrth gefn pob ceidwad fel atodiad	Rheolwr y Practis	Addasu'r cynllun parhad busnes.
9.	Roedd rhai ystafelloedd yn cynnwys llenni ffabrig, clustogau a chadeiriau nad oedd modd eu sychu a charpedi, nad oeddent yn cyrraedd safonau arfer gorau o ran atal a rheoli heintiau.	Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol: - Bod clustogau a chadeiriau wedi'u gorchuddio â ffabrig mewn ardaloedd clinigol yn cael eu newid o fewn amserlen resymol - Bod llenni ffabrig yn cael eu glanhau'n rheolaidd yn unol â chanllawiau atal a	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel	Symudwyd pob cadair ffabrig oedd yn weddill. Newidiwyd y clustogau gyda gorchuddion diddos y mae modd eu sychu. Mae rhaglen newid carpedi yn barhaus. Ffitywyd finyl mewn 4 ystafell ym mis Chwefror 2025, trefnwyd i newid y 4 sy'n weddill yn Scurlage	Rheolwr y Practis	Ymdriniwyd â'r cadeiriau a'r clustogau. Bydd y llenni ffabrig yn cael eu newid erbyn mis Tachwedd 2025. Bydd lloriau carped yr ystafelloedd ymgynghori sy'n weddill yn cael eu newid erbyn mis Tachwedd 2025.

		rheoli heintiau cyfredol neu ystyried trawsnewid i ddewisiadau defnydd untro er mwyn cefnogi gwaith rheoli heintiau effeithiol. Caiff dogfennaeth glir ei chynnal i ddangos amllder a dyddiadau newid llenni neu olchi llenni • Parhau â'r rhaglen newid carpedi ar gyfer yr ardaloedd i gleifion		ym mis Hydref 2025. Er bod y llenni ffabrig yn cael eu golchi'n rheolaidd, bydd llenni untro yn cael eu rhoi yn eu lle pan ddaw'r dyddiad nesaf i'w newid.		
10.	Nid oedd archwiliad Atal a Rheoli Heintiau wedi'i gwblhau ar gael ar adeg yr arolygiad.	Rhaid i'r practis gynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau a sicrhau eu bod yn gynhwysfawr ac yn gyson â safonau atal a rheoli heintiau cyfredol, cydnabyddedig.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel	Mae'r archwiliad o 13/05/2025 wedi'i lanlwytho i'w adolygu.	Rheolwr y Practis/Arweinydd Rheoli Heintiau	Lanlwythwyd i'w adolygu.

11.	Gwelsom nad oedd pob bin offer miniog wedi'i lofnodi a'i ddyddio yn ôl y gofyn. Roedd biniau storio gwastraff clinigol wedi'u lleoli yng nghefn yr adeilad mewn ardal allanol heb ei chloi. Canfuwyd bod gan un bin fecanwaith clo diffygiol. O ganlyniad, ni allem fod yn sicr bod trefniadau digonol ar waith i storio gwastraff clinigol yn ddiogel.	Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol: • Caiff dyddiadau dod i ben biniau offer miniog eu gwirio a'u dyddio ym mhob ystafell yn rheolaidd • Caiff gwastraff clinigol ei storio'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys symud biniau i ardal ddiogel, sicrhau bod mecanwaith cloi gweithredol yn cael ei ffitio ar bob cynhwysydd gwastraff, a chwblhau gwiriadau rheolaidd er mwyn cynnal cydymffurfiaeth • Rhaid symud y bin heb ei gloi o'r safle	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel	Dywedodd y staff clinigol nad oedd y bin offer miniog wedi'i lofnodi a'i ddyddio a chawsant eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i wneud hynny bob tro. Bydd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal am y 3 mis nesaf er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r bin gyda system gloi ddiffygiol bellach wedi'i symud. Cafodd y biniau eu symud o'r adeilad a bydd cyfleuster storio yn cael ei adeiladu. Mae contractwr wedi'i nodi, a dyfynbris wedi'i gaffael.	Rheolwr y Practis/Pob aelod o'r staff clinigol	Archwiliad wythnosol am 3 mis i sicrhau y caiff blychau offer miniog eu llofnodi a'u dyddio. Symudwyd y bin diffygiol. Cwblhau'r cyfleuster storio erbyn diwedd mis Medi 2025 Aeth y staff drwy'r archwiliad ymdrin â gwastraff a storio fel hyfforddiant gloywi.
-----	--	---	---	--	---	---

		er mwyn atal defnydd pellach ohono. Cwblhaodd y staff a'r tîm glanhau hyfforddiant gloywi ar ymdrin â gwastraff clinigol a'r gofynion storio diogel		Diweddarwyd hyfforddiant staff ar ymdrin â gwastraff clinigol a storio diogel.		
12.	Roedd gan rai aelodau o'r staff dystiolaeth ddogfennol o imiwnedd i Hepatitis B; roedd rhai yn aros am ganlyniadau; tra nad oedd cofnodion o brofion ar gael i rai aelodau o'r staff.	Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau imiwnedd cyfredol ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff a all wynebu risg o ddod i gysylltiad â feirysau a gludir yn y gwaed, fel Hepatitis B. Mae hyn yn cynnwys cadarnhau canlyniadau ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu profi, trefnu profion ar gyfer staff nad oes ganddynt gofnodion, a	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel	Mae 3 statws Hep B yn weddill, mae prawf gwaed wedi'i drefnu ar gyfer un ohonynt.	Rheolwr y Practis	Dylid cwblhau pob statws erbyn diwedd mis Medi 2025

		chynnal dogfennaeth glir o'u statws imiwneiddio.				
13.	Nid oedd dyddiadau dod i ben y meddyginiaethau brys wedi'u dogfennu fel rhan o'r gwiriadau wythnosol o'r troli brys.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff dyddiadau dod i ben ar gyffuriau brys eu cofnodi yn ystod gwiriadau wythnosol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel	Ychwanegwyd colofn at restr wirio wythnosol y troli brys.	Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau	Wedi'i gwblhau - colofn wedi'i hychwanegu
14.	Mae'r practis yn defnyddio silindrau nwy meddygol integredig BOC. Ar yr adeg honno, nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar drin a defnyddio'r cyfarpar hwn yn ddiogel.	Rhaid i'r practis sicrhau bod hyfforddiant silindr nwy meddygol integredig BOC yn cael ei gwblhau gan staff clinigol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel	Mae 70% o'r staff clinigol bellach wedi cwblhau'r cwrs hwn. Dylai hyn gyrraedd 100% erbyn diwedd mis Awst 2025	Rheolwr y Practis	100% o'r hyfforddiant erbyn diwedd mis Awst 2025
15.	Nid oedd y polisi Diogelu yn cynnwys manylion cyswllt yr arweinydd dynodedig. Nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau	Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol: Bod y polisi diogelu yn cynnwys enw'r arweinydd dynodedig.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel; Gwybodaeth	Ychwanegwyd yr Arweinydd Dynodedig, Dr Tay Sahami at y polisi Gadawodd un aelod o'r staff er mwyn cwblhau ei	Rheolwr y Practis	Dylai pob aelod o'r staff ei gwblhau erbyn mis Awst 2025

	hyfforddiant diogelu ar y lefel ofynnol.	Bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu i'r lefel ofynnol		hyfforddiant diogelu.		
16.	Roedd cofnodion y cyfarfod diogelu'n cynnwys enw llawn claf.	Rhaid i'r practis sicrhau bod dynodydd unigryw neu gyfeiriad dienw yn cymryd lle gwybodaeth y gellir adnabod rhywun ohoni.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel; Gwybodaeth	Tynnwyd yr enw, bydd y dynodydd unigryw yn cael ei ddefnyddio wrth symud ymlaen.	Rheolwr y Practis	Bydd y rheolwr yn gwirio holl gofnodion y cyfarfod at ddibenion cydymffurfiaeth.
17.	Nid oedd meddyginiaeth bob amser yn gysylltiedig â phroblem/ cyflwyniad y claf yn ei gofnodion.	Dylai'r practis sicrhau bod meddyginiaeth yn gysylltiedig â phroblem/ cyflwyniad y cleifion yn y cofnodion mewn modd priodol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel; Gwybodaeth	Caiff blaenoriaethau yn Vision eu defnyddio i nodi problemau. Caiff meddygon teulu, cofrestryddion a meddygon locwm eu hatgoffa o godio. Tynnwyd sylw at hyn yn y pecynnau sefydlu. Dylai symud i Emis ar ddechrau 2026 helpu gyda phroblemau cysylltu gan fod hyn yn cael	Rheolwr y Practis	Bydd 10 claf yn cael ei adolygu ar hap ymhen deufis er mwyn gwirio am feddyginiaethau sy'n gysylltiedig â'r broblem.

				ei wneud yn awtomatig yn y system glinigol hon.		
18.	Nid oedd cyflyrau meddygol newydd a oedd wedi'u rhestru mewn crynodebau rhyddhau cleifion a oedd yn cyrraedd yn cael eu codio yn eu cofnod bob amser.	Dylai'r practis adolygu ei brosesau ar gyfer ymdrin â chrynodebau rhyddhau cleifion a oedd yn cyrraedd er mwyn sicrhau bod cyflyrau meddygol newydd yn cael eu nodi'n gyson a'u codio mewn modd priodol yng nghofnodion y cleifion.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel; Gwybodaeth	Bydd y polisi/protocol llif gwaith yn ymdrin â hyn i sicrhau cydymffurfiaeth gan bob codiwr Read.	Rheolwr y Practis	I'w harchwilio ymhen 1 mis er mwyn sicrhau y caiff y polisi llif gwaith ei arsylwi a bod gwaith codio yn cael ei wneud.
19.	Mewn tri o'r cofnodion i gleifion y gwnaethom edrych arnynt, roedd archwiliad personol wedi'i gynnal. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r cofnodion hyn yn cynnwys dogfennaeth o gydsyniad y claf i'r archwiliad. Dim ond mewn un o'r tri	Dylai'r practis sicrhau y caiff cydsyniad i archwiliadau personol ei ddogfennu'n glir yng nghofnod y claf. Dylai hebryngwr gael ei gynnig ym mhob achos priodol, gan gofnodi'r cynnig, ymateb y claf, ac enw'r hebryngwr (os oes un yn bresennol) yn glir.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Gwybodaeth	Gweler yr ymateb i eitem 1. Sy'n ymestyn i'r mater hwn	Rheolwr y Practis	Archwiliad ymhen 3 mis

	achos yr oedd cofnod bod hebryngwr wedi'i gynnig; yn y ddau achos oedd yn weddill, nid oedd cofnod bod hebryngwr wedi'i gynnig.					
20.	Gwnaethom adolygu cofnodion recriwtio pum aelod o'r staff a nodwyd gennym nad oedd geirdaon wedi'u cadw ar ffeil ar gyfer rhai aelodau o'r staff. Roedd rhai gwiriadau wedi'u cynnal i sicrhau bod person yn addas i weithio i'r practis, fel eu statws DBS.	Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol: • Bod y polisi recriwtio yn cael ei ddilyn • Bod dogfennaeth berthnasol, fel geirdaon ysgrifenedig yn cael eu ceisio ar gyfer aelodau newydd o staff a'u cadw ar ffeil • bod y gwiriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diogel; Y Gweithlu; Gwybodaeth	Cadwyd geirdaon a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y 2 aelod o staff a gyflogwyd yn ddiweddar. Roedd yn ofynnol i'r holl staff hefyd lofnodi hunanddatganiadau yn eu harfarniadau ym mis Mehefin 2025. Gwnaed cais am wiriadau estynedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff clinigol. Mae	Rheolwr y Practis	Bydd pob gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Awst 2025.

		eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff a bod tystiolaeth o hyn yn y ffeil Ei bod yn ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau ardystiad blynyddol ysgrifenedig i gadarnhau nad oes unrhyw newid a fyddai'n effeithio ar ei statws DBS.		dau ar waith. Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff gweinyddol ar waith ar gyfer 70% o'r staff gweinyddol.		
21.	Er bod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn ardal derbynfa'r practis, nid oedd manylion gweithdrefn 'Gweithio i Wella' y GIG wedi'i harddangos.	Rhaid i'r practis sicrhau bod proses Gweithio i Wella y GIG yn cael ei harddangos yn glir yn y practis.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Diwylliant	Mae'r weithdrefn a'r taflenni Gweithio i Wella bellach yn cael eu harddangos yn amlwg, yn ganolog i'r hysbysfyrddau yn y practisau gyda thaflenni ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
22.	Nid oeddem yn gallu	Rhaid i'r practis gadarnhau bod y staff	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal	Er bod yr hyfforddiant	Rheolwr y Practis	Diwedd mis Medi 2025

canfod tystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd.	wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.	- Y Gweithlu	Dyletswydd Gonestrwydd wedi'i gwmpasu mewn sesiynau amser dysgu gwarchodedig, ni chyflenwyd tystysgrifau. Bydd yr holl staff bellach yn cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd Ardystiedig. Mae 0% wedi cwblhau'r cwrs. Bydd 100% wedi'i gaffael erbyn diwedd mis Medi 2025		
--	---	-----------------	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Lynne Palmer

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 13 Awst 2025